

Tarten Gelynion

gan Derek Munson


darluniau gan Tara Calahan King

Roedd hi'n haf perffaith tan i Jeremy Ross symud i mewn drws nesaf i fy ffrind gorau Stanley. Doeddwn i ddim yn hoffi Jeremy. Cafodd barti a wnaeth e ddim hyd yn oed fy ngwahodd i. Ond cafodd fy ffrind gorau Stanley wahoddiad.

Doedd dim gelyn wedi bod gen i erioed tan i Jeremy symud i mewn i'r ardal. Dywedodd Dad wrtha i fod ganddo fe elynion hefyd pan oedd e fy oedran i. Ond roedd e'n gwybod sut i gael gwared arnyn nhw.

Tynnodd Dad hen ddarn o bapur allan o lyfr ryseitiau.

“Tarten Gelynion,” dywedodd, wrth ei fodd.



Efallai eich bod chi'n meddwl beth yn union yw Tarten Gelynion. Dywedodd Dad fod y rysâit mor gyfrinachol, fel na allai hyd yn oed ddweud wrtha i. Gwnes i erfyn arno i ddweud rhywbeth wrtha i—unrhyw beth.

“Fe wna i ddweud hyn wrthot ti, Tom,” dywedodd wrtha i. “Tarten Gelynion yw'r ffordd gyflymaf rwy'n gwybod amdani i gael gwared ar elynion.”

Gwnaeth hyn i mi feddwl. Pa fathau o bethau afiach fyddwn i'n eu defnyddio i wneud Tarten Gelynion? Cynigiais fwydod a cherrig i Dad, ond fe wnaeth eu rhoi nhw nôl yn syth.

Es i allan i chwarae. Ond drwy'r amser, roeddwn i'n gwrando ar sŵn fy nhad yn y gegin. Efallai y byddai'n haf gwych wedi'r cyfan.

Ceisiais ddychmygu pa mor ofnadwy y byddai arogl Tarten Gelynion. Ond roeddwn i'n gallu arogl rhywbeth hyfryd iawn. Roedd fel petai'n dod o'r gegin. Roeddwn i wedi drysu.

Es i i mewn i ofyn i Dad beth oedd o'i le. Allai Tarten Gelynion ddim creu arogl cystal. Ond roedd Dad yn glyfar. “Pe byddai'n arogl drwg, fyddai dy elyn di byth yn ei bwytia,” dywedodd. Roedd hi'n amlwg ei fod e wedi gwneud y darten hon o'r blaen.

Canodd cloch y popty. Gwisgodd Dad fenig popty a thynnodd y darten allan. Roedd hi'n edrych yn ddigon da i'w bwyta! Roeddwn i'n dechrau deall.

Ond doeddwn i ddim yn siŵr o hyd sut roedd Tarten Gelynion yn gweithio. Beth yn union oedd hi'n ei wneud i elynion? Efallai ei bod hi'n gwneud i'w gwallt nhw gwympo allan, neu'n rhoi anadl ddrwg iddyn nhw. Gofynnais i Dad, ond doedd e ddim help.

Wrth aros i'r darten oeri, dywedodd Dad wrtha i beth y byddai angen i mi ei wneud.

Sibrydodd. “Er mwyn iddi weithio, mae angen i ti dreulio diwrnod gyda dy elyn. Yn waeth byth, rhaid i ti fod yn neis iddo. Dyw hynny ddim yn hawdd. Ond dyna'r unig ffordd y gall Tarten Gelynion weithio. Wyt ti'n siŵr dy fod am wneud hyn?”

Wrth gwrs fy mod i.

Y cyfan roedd angen i mi ei wneud oedd treulio diwrnod gyda Jeremy, wedyn byddai allan o fy mywyd. Es ar fy meic draw i'w dŷ a churo ar y drws.

Pan agorodd Jeremy y drws, edrychodd yn syn.


“Elli di ddod allan i chwarae?” gofynnais.

Roedd wedi drysu. “Fe af i i ofyn i mam,” dywedodd. Daeth nôl â'i esgidiau yn ei law.

Ar ôl chwarae ar ein beiciau am ychydig, cawson ni ginio. Ar ôl cinio, aethon ni draw i fy nhŷ i.

Roedd hi'n rhyfedd, ond roeddwn i'n cael hwyl gyda fy ngelyn. Allwn i ddim dweud hynny wrth Dad, gan ei fod wedi gweithio mor galed i wneud y darten.

Gwnaethon ni chwarae gemau tan i dad ein galw i gael swper.



Roedd Dad wedi gwneud fy hoff fwyd. Dyna oedd hoff fwyd Jeremy hefyd! Efallai nad oedd Jeremy mor ddrwg â hynny wedi'r cyfan. Roeddwn i'n dechrau meddwl efallai y dylen ni anghofio am y Darten Gelynion.

“Dad”, dywedais, “Mae'n braf bod gen i ffrind newydd.” Roeddwn i'n trio dweud wrtho fod Jeremy ddim yn elyn i mi dim mwy. Ond dim ond gwenu a nodio wnaeth Dad. Rwy'n credu ei fod e'n meddwl mai esgus oeddwn i.

Ond ar ôl swper, daeth Dad allan â'r darten. Rhoddodd ryw faint ar dri phlât a rhoddodd un i fi ac un i Jeremy.

“Waw!” dywedodd Jeremy, gan edrych ar y darten.

Teimlais banig. Doeddwn i ddim am i Jeremy fwyta'r Darten Gelynion! Roedd yn ffrind!


“Paid â'i bwyta!” gweiddais. “Mae'n afiach!”

Daliodd Jeremy ei fforc yn stond cyn cyrraedd ei geg. Edrychodd arna i'n rhyfedd. Roeddwn i'n teimlo rhyddhad. Roeddwn i wedi achub ei fywyd.

“Os yw e mor afiach,” gofynnodd Jeremy, “pam mae dy dad wedi bwyta ei hanner yn barod?”

Digon gwir, roedd Dad yn bwyta'r Darten Gelynion.

“Blasus,” mwmlodd Dad. Eisteddais yn eu gwyllo'n bwyta. Doedd yr un ohonyn nhw wedi colli unrhyw wallt! Roedd yn edrych yn ddiogel, felly cymerais flas bach. Roedd yn hyfryd!



Ar ôl pwddin, gofynnodd Jeremy i fi fynd draw i'w dŷ e y bore wedyn.

A beth am y Darten Gelynion, wn i ddim sut i'w gwneud o hyd. Rwy'n dal i feddwl tybed ydy gelynion wir yn ei chasáu neu ydy eu gwallt nhw'n cwmpo allan neu ydy hi'n rhoi anadl drwg

iddyn nhw. Ond dydw i ddim yn gwybod a ga i fyth ateb, gan fy mod i newydd golli fy ngelyn gorau.

Cwestiynau

Tarten Gelynion

1. Pwy sy'n dweud y stori?

A Jeremy

B Dad

C Stanley

D Tom

2. Ar ddechrau'r stori, pam oedd Tom yn meddwl bod Jeremy yn elyn iddo?

3. Ysgrifennwch un cynhwysyn roedd Tom yn credu y byddai'n cael ei ddefnyddio i wneud Tarten Gelynion.

4. Dewch o hyd i'r rhan o'r stori wrth ymyl y llun o ddarn o darten: Pam roedd Tom yn meddwl y gallai fod yn haf gwyd wedi'r cyfan?

A Roedd yn hoffi chwarae y tu allan.

B Roedd yn gyffrous am gynllun Dad.

C Roedd wedi gwneud ffrind newydd.

D Roedd am flas Tarten Gelynion.

5. Sut roedd Tom yn teimlo pan wnaeth arogl'r Darten Gelynion am y tro cyntaf? Esboniwch pam roedd yn teimlo fel hyn.

6. Beth roedd Tom yn meddwl y gallai ddigwydd pan fyddai ei elyn yn bwyta'r Darten Gelynion? Ysgrifennwch un peth.

7. Beth oedd y ddau beth a ddywedodd tad Tom wrtho i'w wneud er mwyn i'r Darten Gelynion weithio?

8. Pam aeth Tom i dŷ Jeremy?

A I wahodd Jeremy am swper.

B I ofyn i Jeremy adael llonydd i Stanley.

C I wahodd Jeremy i chwarae.

D I ofyn i Jeremy fod yn ffrind iddo.

9. Beth wnaeth synnu Tom am y diwrnod y gwnaeth ei dreulio gyda Jeremy?

10. Amser swper, pam y gwnaeth Tom ddechrau meddwl y dylai e a'i dad anghofio am y Darten Gelynion?

A Doedd Tom ddim am rannu ei bwdin â Jeremy.

B Doedd Tom ddim yn meddwl y byddai'r Darten Gelynion yn gweithio.

C Roedd Tom yn dechrau hoffi Jeremy.

D Roedd Tom am gadw'r Darten Gelynion yn gyfrinach.

11. Sut roedd Tom yn teimlo pan roddodd Dad ddarn o'r Darten Gelynion i Jeremy?

A ofnus

B bodlon

C syn

D dryslyd

12. Beth wnaeth Dad ei gadw'n gyfrinach am y Darten Gelynion?

A Tarten gyffredin oedd hi.

B Roedd yn blasu'n afiach.

C Dyna oedd ei hoff fwyd.

D Roedd y darten yn wenwynig.

13. Edrychwch ar y frawddeg hon o ddiwedd y stori:

“Ar ôl pwdin, gofynnodd Jeremy i fi fynd draw i'w dŷ e y bore wedyn.”

Beth mae hyn yn ei awgrymu am y bechgyn?

A Maen nhw'n elynion o hyd.

B Dydyn nhw ddim yn hoffi chwarae yn nhŷ Tom.

C Roedden nhw am fwyta mwy o'r Darten Gelynion.

D Efallai y byddan nhw'n ffrindiau yn y dyfodol.

14. Defnyddiwch beth rydych chi wedi'i ddarllen i esbonio pam y gwnaeth tad Tom Darten Gelynion mewn gwirionedd.

15. Pa fath o berson yw tad Tom? Rhowch enghraifft o beth a wnaeth yn y stori sy'n dangos hyn.

16. Pa wers y gallech chi ei dysgu o'r stori hon?

Dirgelwch y Dant ENFAWR

Ystyr ffosil yw olion unrhyw greadur neu blanhigyn a oedd yn byw ar y Ddaear flynyddoedd maith yn ôl. Mae pobl wedi bod yn darganfod ffosiliau ers miloedd o flynyddoedd mewn creigiau a chlogwyni ac wrth ymyl llynnoedd. Rydyn ni'n gwybod erbyn hyn bod rhai o'r ffosiliau hyn yn dod o ddinosoriaid.

Yn y gorffennol pell, doedd pobl a wnaeth ddarganfod ffosiliau enfawr ddim yn gwybod beth oedden nhw. Roedd rhai yn meddwl bod yr esgyrn mawr yn dod o anifeiliaid mawr roedden nhw wedi'u gweld neu wedi darllen amdany'n nhw, fel hipopotamysau neu eliffantod. Ond roedd rhai o'r esgyrn y gwnaeth pobl eu darganfod yn rhy fawr i fod wedi dod o hyd yn oed yr hipopotamws neu'r eliffant mwyaf. Gwnaeth yr esgyrn mawr hyn i rai bobl gredu mewn cewri.



Gannoedd o flynyddoedd yn ôl yn Ffrainc, roedd gan ddyn o'r enw Bernard Palissy syniad arall. Roedd yn grochenydd enwog. Pan aeth i greu ei botiau, gwnaeth ddarganfod llawer o ffosiliau bach iawn yn y clai. Astudiodd y ffosiliau ac ysgrifennodd mai olion creaduriaid byw oedden nhw. Doedd hyn ddim yn syniad newydd. Ond ysgrifennodd Bernard Palissy hefyd nad oedd rhai o'r creaduriaid hyn yn byw ar y ddaear erbyn hyn. Doedd dim un ar ôl. Roedden nhw'n ddiflanedig.

A gafodd Bernard Palissy ei wobrwyo am ddarganfod hyn? Naddo! Cafodd ei roi yn y carchar am ei syniadau.


Wrth i amser fynd heibio, daeth rhai pobl yn fwy agored i syniadau newydd am sut y gallai'r byd fod wedi bod flynyddoedd yn ôl.

Wedyn, yn y 1820au, cafodd dant ffosil enfawr ei ddarganfod yn Lloegr. Yr hanes yw bod Mary Ann Mantell, gwraig yr arbenigwr ffosiliau Gideon Mantell, wedi mynd allan am dro pan welodd hi beth oedd yn edrych fel dant mawr wedi'i wneud o garreg. Roedd Mary Ann Mantell yn gwybod mai ffosil oedd y dant mawr, ac aeth ag ef adref a'i roi i'w gŵr.

Pan edrychodd Gideon Mantell ar y dant ffosil am y tro cyntaf, roedd yn credu ei fod yn perthyn i greadur oedd yn bwyta planhigion gan ei fod yn fflat â chribau. Roedd wedi treulio o gnoi bwyd. Roedd bron mor fawr â dant eliffant. Ond doedd e ddim yn edrych yn debyg i ddant eliffant.

Braslun maint llawn o'r dant ffosil

Roedd Gideon Mantell yn gallu dweud bod y darnau o graig a oedd wedi'u hatodi at y dant yn hen iawn. Roedd yn gwybod mai dyma'r math o graig lle roedd ffosiliau ymlusgiaid yn cael eu darganfod. Allai'r dant fod wedi perthyn i ymlusgiad enfawr oedd yn bwyta planhigion a oedd yn cnoi ei fwyd? Math o ymlusgiad nad oedd yn byw ar y ddaear erbyn hyn?



Roedd y dant mawr yn ddirgelwch llwyr i Gideon Mantell. Doedd e ddim yn gwybod am unrhyw ymlusgiad a oedd yn cnoi ei fwyd. Roedd ymlusgiad yn llowcio eu bwyd, ac felly doedd eu dannedd ddim yn treulio. Roedd yn ddirgelwch.

Aeth Gideon Mantell â'r dant i amgueddfa yn Llundain a'i ddangos i wyddonwyr eraill. Doedd neb yn cytuno â Gideon Mantell y gallai'r dant berthyn i ymlusgiad enfawr.

Aeth Gideon Mantell ati i geisio dod o hyd i ymlusgiad â dant a oedd yn edrych fel y dant enfawr. Am gyfnod hir, methodd â dod o hyd i ddim. Wedyn un diwrnod, gwnaeth gyfarfod â gwyddonydd a oedd yn astudio igwanaod. Ymlusgiad enfawr sy'n bwyta planhigion sy'n byw yng Nghanol a De America yw igwana. Gall dyfu i fod yn fwy na phum troedfedd o hyd. Dangosodd y gwyddonydd ddant igwana i Gideon Mantell. O'r diwedd! Dyma ddant ymlusgiad byw a oedd yn edrych fel y dant dirgel. Ond roedd y dant ffosil yn llawer, llawer mwy.

Igwana


Darlun maint llawn o ddant igwana o lyfr nodiadau Gideon Mantell



Nawr roedd Gideon Mantell yn credu bod y dant ffosil yn perthyn i anifail a oedd yn edrych fel igwana. Ond dim pum troedfedd oedd ei hyd. Roedd Gideon Mantell yn credu ei fod yn gan troedfedd o hyd! Rhoddodd yr enw Igwanodon i'w greadur. Mae hynny'n golygu “dant igwana”.

Doedd dim sgerbwd cyfan o Igwanodon gan Gideon Mantell. Ond o'r esgyrn roedd wedi'u casglu dros y blynyddoedd, ceisiodd ddyfalu sut olwg oedd arno. Roedd yn meddwl bod yr esgyrn yn dangos bod y creadur wedi cerdded ar bedair coes. Roedd yn meddwl mai corn oedd un o'r esgyrn pigfain. Tynnodd lun Igwanodon â chorn ar ei drwyn.

Sut olwg oedd ar Igwanodon yn ôl Gideon Mantell



Flynyddoedd yn ddiweddarach, cafodd sawl sgerbwd Igwanodon cyflawn eu darganfod. Dim ond tua thri deg troedfedd oedd eu hyd. Roedd yr esgyrn yn dangos ei fod yn cerdded ar ei goesau ôl weithiau. Ac mewn gwirionedd, pigyn ar ei “fawd” oedd y corn ar ei drwyn, fel y tybiodd Gideon Mantell! Ar sail y darganfyddiadau hyn, newidiodd gwyddonwyr eu syniadau am sut olwg oedd ar Igwanodon.

Roedd Gideon Mantell wedi gwneud rhai camgymeriadau. Ond roedd wedi gwneud darganfyddiad pwysig, hefyd. Ers ei syniad cyntaf fod y dant ffosil yn perthyn i ymlusgiad a oedd yn bwyta planhigion, treuliodd sawl blwyddyn yn casglu ffeithiau a thystiolaeth i brofi fod eu syniadau yn iawn. Drwy ddyfalu'n ofalus ar hyd y ffordd, Gideon Mantell oedd un o'r bobl gyntaf i ddangos bod ymlusgiaid enfawr yn byw ar y ddaear amser maith yn ôl. Ac wedyn, gwnaethon nhw ddiflannu.

Gannoedd o flynyddoedd cyn hynny, cafodd Bernard Palissy ei daflu i'r carchar am ddweud fwy neu lai yr un peth. Ond daeth Gideon Mantell yn enwog. Yn dilyn ei ddarganfyddiad, roedd pobl yn awyddus i gael gwybod mwy am yr ymlusgiaid enfawr hyn.

Yn 1842, penderfynodd gwyddonydd o'r enw Richard Owen fod angen enw eu hunain ar yr ymlusgiaid diflanedig hyn. Yr enw a wnaeth ddefnyddio oedd Dinosawria. Mae hyn yn golygu “madfall ofnadwy o fawr”. Heddiw, rydyn ni'n eu galw'n ddinosoriaid.



Cwestiynau Dirgelwch y Dant Enfawr

1. Beth yw ffosil?

- A arwyneb creigiau a chlogwyni
- B esgyrn cawr
- C olion pethau byw hen iawn
- D dannedd eliffantod

2. Yn ôl yr erthygl, pam roedd rhai pobl amser maith yn ôl yn credu mewn cewri?

3. Ble daeth Bernard Palissy o hyd i ffosiliau?

- A ar y clogwyni
- B yn y clai
- C ger afon
- D ar lwybr

4. Beth oedd syniad newydd Bernard Palissy?

5. Pam gafodd Bernard Palissy ei roi yn y carchar?

- A Doedd pobl ddim yn barod i dderbyn syniadau newydd.
- B Gwnaeth gopïo syniadau Gideon Mantell.
- C Gadawodd ffosiliau bach iawn yn ei grochenwaith.
- D Roedd astudio ffosiliau wedi'i wahardd yn Ffrainc.

6. Pwy wnaeth ddarganfod y dant ffosil yn Lloegr?

- A Bernard Palissy
- B Mary Ann Mantell
- C Richard Owen
- D Gideon Mantell

7. Beth oedd Gideon Mantell yn ei wybod am ymlusgiaid a oedd yn golygu bod y dant ffosil yn ddirgelwch?

- A Doedd dim dannedd gan ymlusgiaid
- B Roedd ymlusgiaid i'w cael o dan greigiau.
- C Roedd ymlusgiaid yn byw amser maith yn ôl.
- D Roedd ymlusgiad yn llowcio eu bwyd.

8. Roedd Gideon Mantell yn meddwl efallai bod y dant yn perthyn i wahanol fathau o anifeiliaid. Cwblhewch y tabl i ddangos beth wnaeth iddo feddwl hyn.

Math o anifail	Beth wnaeth iddo feddwl hyn
Anifail sy'n bwyta planhigion	Roedd y dant yn fflat â chribau.
Creadur enfawr	
Ymlusgiad	

9. Pam wnaeth Gideon Mantell fynd â'r dant i amgueddfa?

- A i ofyn a oedd y ffosil yn perthyn i'r amgueddfa
- B i brofi ei fod yn arbenigwr ar ffosiliau

C i glywed beth roedd gwyddonwyr yn meddwl am ei syniad

D i gymharu'r dant ag eraill yn yr amgueddfa

10. Dangosodd gwyddonydd ddant igwana i Gideon Mantell. Pam roedd hyn yn bwysig i Gideon Mantell?

11. Beth wnaeth Gideon Mantell ei ddefnyddio wrth geisio dyfalu sut olwg oedd ar yr Igwanodon?

A yr esgyrn roedd wedi'u casglu

B syniadau gan wyddonwyr eraill

C lluniau mewn llyfrau

D dannedd o ymlusgiaid eraill

12. Edrychwch ar y ddau lun o'r Igwanodon. Beth maen nhw'n eich helpu i'w ddeall?

13. Profodd darganfyddiadau diweddarach fod Gideon Mantell yn anghywir am sut olwg oedd ar yr Igwanodon. Llenwch y bylchau i gwblhau'r tabl.

Sut olwg oedd ar yr Igwanodon yn ôl Gideon Mantell	Sut olwg oedd ar yr Igwanodon yn ôl gwyddonwyr heddiw
Roedd yr Igwanodon yn cerdded ar bedair coes.	
	Roedd gan yr Igwanodon bigyn ar ei fawd.
Roedd yr Igwanodon yn 100 troedfedd o hyd.	

14. Beth gafodd ei ddarganfod a ddangosodd fod Gideon yn anghywir am sut olwg oedd ar yr Igwanodon?

A mwy o ddannedd ffosil

B lluniadau gwyddonol

C Igwanodoniaid byw D sgerbydau cyfan